# P-04-537 Plannu Coed i Leihau Llifogydd

**Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i annog Llywodraeth Cymru i leihau'r risg o lifogydd i filoedd o gartrefi drwy'r wlad drwy gefnogi plannu o leiaf 10 miliwn coeden dros y pum mlynedd nesaf, gan greu perthi, lleiniau coed a mannau coediog wedi'u targedu yn y mannau gorau ar gyfer amsugno'r dŵr ac arafu dŵr ffo. Byddai plannu'r coed hyn yn cyfrif tuag at nod bresennol Llywodraeth Cymru i blannu 100,000 hectar o goed i amsugno carbon deuocsid o'r awyrgylch.

**Prif ddeisebydd:** Coed Cadw

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 18 Chwefror 2014

**Nifer y llofnodion**: 2708